


Llun: Roy Campbell-Moore “Newport Legends” 2017

# Rheolwr Prosiect
# Gorchudd Mamolaeth

## Pecyn Gwybodaeth
## Mai 2025

Annwyl Ymgeisydd,

Diolch am eich diddordeb yn rôl Rheolwr Prosiect yn Operasonic.

Sefydliad cerddoriaeth cymunedol yw Operasonic sydd wedi'i leoli yng nghanol cymuned Casnewydd. Credwn fod creadigrwydd yn hawl ddynol. Mae'n galluogi dychymyg, chwilfrydedd, a galluogrwydd, a mae'n ein hannog i feddwl yn wahanol a dangos empathi.

Dan arweiniad ein cyfarwyddwr sefydlu Rhian Hutchings, bu pum mlynedd gyntaf ein gwaith yn ymwneud â chychwyn sgyrsiau gydag ysgolion, canolfannau cymunedol, llyfrgelloedd, teuluoedd ac artistiaid yng Nghasnewydd ac ystyried sut maen nhw'n dylanwadu ar opera ac yn creu opera. Camodd ein cyfarwyddwr sefydlu yn ôl i ymuno â Bwrdd y Cyfarwyddwyr yn 2020 ac mae rôl y Cynhyrchydd Gweithredol wedi rhoi'r cyfle i leisiau newydd gyfrannu at ddatblygiad y cwmni.

Yn 2023 gwnaeth y cwmni gais llwyddiannus i ddod yn rhan o Adolygiad Buddsoddi Cyngor Celfyddydau Cymru, gan gyflwyno cynllun uchelgeisiol ar gyfer dyfodol Operasonic. Rydyn ni nawr yn adeiladu ein tîm i fynd â'r cwmni i'r cam nesaf.

Mae gan Operasonic berthynas ag amrywiaeth o gyfansoddwyr, cyfarwyddwyr, dylunwyr a chynhyrchwyr llawrydd, yn ogystal â rhwydwaith cryf o fewn sector celfyddydau Cymru. Mae'r sefydliad hefyd yn aelod o RESEO – y rhwydwaith addysg opera, cerddoriaeth a dawns yn Ewrop – ac mae wedi bod yn chwilio'n frwd am gyfleoedd Ewropeaidd dros y blynyddoedd diwethaf.

Mae cyfranogiad wrth galon ein hymarfer ac rydyn ni'n cefnogi pobl ifanc yn weithredol i ddatblygu eu sgiliau cymdeithasol ac emosiynol a'u celfyddyd. Mae hyn yn cysylltu â sut rydyn ni'n trin ein staff. Rydyn ni eisiau i bawb rydyn ni'n gweithio gyda nhw dyfu trwy eu gwaith gyda ni. Efallai y byddwch yn teimlo bod angen mwy o brofiad arnoch i wneud cais am y swydd hon – ond dwedwch wrthyn ni sut y gallwn eich cefnogi i wneud eich gwaith gorau. Rydyn ni wedi ymrwymo i fod yn gyflogwr cyfle cyfartal ac rydyn ni'n awyddus i glywed gan ystod eang o ymgeiswyr.

Gallwch ddysgu mwy am waith Operasonic drwy fynd i'n gwefan www.operasonic.co.uk. Byddwn yn hapus iawn i drafod y rôl gyda chi, felly os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os hoffech drefnu galwad ffôn, anfonwch e-bost i mi: rhian@operasonic.co.uk.

Edrychaf ymlaen at ddarllen eich llythyr cais.



Rhian Hutchings

Cadeirydd yr Ymddiriedolwyr, Operasonic

YNGLŶN AG OPERASONIC

Mae Operasonic yn gwmni cyfyngedig trwy warant nid er elw a ffurfiwyd ym mis Tachwedd 2014 ac mae wedi'i leoli yng Nghasnewydd.

**Ein gweledigaeth** yw cymuned amrywiol sy'n dod at ei gilydd trwy stori a cherddoriaeth i greu, dathlu a thyfu.
**Ein cenhadaeth** yw creu cyfleoedd i bobl ddefnyddio eu pŵer creadigol i adrodd storïau a dathlu eu cymunedau a'u galluogi i ddefnyddio cerddoriaeth fel ffordd i'w mynegi eu hunain.
**Credwn** fod creadigrwydd yn hawl ddynol. Mae'n galluogi dychymyg, chwilfrydedd, a galluogrwydd, ac mae'n ein hannog i feddwl yn wahanol a dangos empathi.
**Mae Operasonic yn bodoli i** ysbrydoli pobl i gael mynediad at eu creadigrwydd, ei ddatblygu a'i rannu trwy gerddoriaeth fel bod pawb sy'n byw, yn gweithio neu'n cyrraedd ein dinas yn gwybod bod croeso iddynt a'u bod yn rhan werthfawr o fywyd Casnewydd ac o Ddiwylliant Cymru.

Rydyn ni wedi datblygu'r **nodau** canlynol sy'n greiddiol i'r gwaith ar gyfer y blynyddoedd i ddod:

- **Cefnogi'r** genhedlaeth nesaf o ymarferwyr cerddoriaeth proffesiynol a chreadigol newydd yng Nghasnewydd i gael gyrfaoedd boddhaus a chynaliadwy
- **Agor** byd cyfoethog cerddoriaeth i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd o bob cefndir, diwylliant a chymuned yng Nghasnewydd
- **Dathlu** ein dinas a chreu profiadau creadigol llawn dychymyg i gyfoethogi bywydau dinasyddion Casnewydd
- **Hyrwyddo** Casnewydd ledled Cymru a'r byd

Mae cyfranogiad yn ganolog i'n gwaith. Mae gennym ni angerdd am bŵer a photensial ein cymuned leol ryfeddol, amrywiol a chymhleth. Rydyn ni eisiau i gerddoriaeth fod yno i bawb yn ein cymuned – i roi llais, i adrodd storïau, i fod yn llawen ac yn emosiynol, i fod yn uchel ac yn falch.

PROSIECTAU PRESENNOL

- Ar hyn o bryd mae Operasonic yn cynnal ac yn cynllunio ystod o brosiectau gwahanol yng nghymuned Casnewydd a thu hwnt.
- Cysyniad prosiect cyfansoddi caneuon yw Prosiect Hwiangerdd (The Lullaby Project) a grëwyd gan Carnegie Hall ac mae Operasonic yn bartner Hwiangerdd. Eleni rydyn ni wedi bod yn datblygu'r prosiect Hwiangerdd yng nghymuned Casnewydd, a hefyd yn y gymuned F/fyddar.
- Mae Côr y Byd, Maendy, yn dod â disgyblion cynradd ynghyd i ganu caneuon o bob rhan o'r byd a dathlu diwylliannau pawb. Cartref y côr yw Ysgol Gynradd Maendy.
- Sesiwn gerddoriaeth reolaidd yng nghanolfan Eden Gate gan weithio gyda phobl sy'n profi digartrefedd.
- Côr Cymraeg i bob oed yw Canu Casnewydd.
- Carfan Operasonic – yn cynnig cyfleoedd datblygu a hyfforddi i gerddorion ifanc o dde Cymru.
- Prosiect Cymru Ffrainc sy'n cael ei ariannu gan British Council Cymru.

**Rheolwr Prosiect**

## Y RÔL

Rydyn ni'n chwilio am berson sydd ag angerdd am gerddoriaeth a chymuned sy'n awyddus i wneud gwahaniaeth yng Nghymuned Casnewydd.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn rheolwr prosiectau a phartneriaethau trefnus a manwl. Bydd yn gyfathrebwr da, ac yn fedrus wrth ddatblygu perthnasoedd, cyllidebu a chynllunio digwyddiadau.

Bydd y Rheolwr Prosiect yn atebol i'r Cynhyrchydd Gweithredol a bydd hefyd yn adrodd i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr.

## SUT I WNEUD CAIS

Darllenwch y disgrifiad o'r rôl a manyleb y person isod ac anfonwch eich CV a llythyr eglurhaol yn dweud wrthyn ni bod y rôl o ddiddordeb i chi a sut mae eich sgiliau a'ch profiad yn cyd-fynd â'r rôl. Anfonwch bopeth i danielle@operasonic.co.uk

Fel dewis arall yn lle llythyr eglurhaol, gallwch ddweud wrthyn ni am eich sgiliau a'ch profiad mewn fideo byr (dim mwy na thri munud). Rydyn ni'n awgrymu eich bod yn defnyddio We Transfer i anfon y fideo i wneud yn siŵr bod y fideo yn cyrraedd.

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau yw Dydd Llun 2ail Mehefin

Byddwch yn cael gwybod os ydych wedi cael eich gwahodd am gyfweliad erbyn dydd Gwener 6ed o Fehefin. Caiff cyfweliadau eu cynnal ddydd Gwener 13eg o Fehefin

Os oes gennych unrhyw ofynion arbennig eraill i'ch galluogi i wneud cais am y rôl hon, rhowch wybod i ni drwy anfon e-bost i danielle@operasonic.co.uk

RHEOLWR PROSIECT GORCHUDD MAMOLAETH

**Disgrifiad o'r Rôl**

Contract: Contract tymor penodol Mehefin 2025 - Mehefin 2026
Cyflog: tua £28,000 y flwyddyn (Cyfwerth ag amser llawn)
Oriau: 21 awr yr wythnos
Lleoliad: Swyddfa Operasonic yng Nghasnewydd a lleoliadau cymunedol lleol

Mae'r rôl yn cwmpasu'r cyfrifoldebau canlynol:

- Rheoli a chyflawni prosiectau Operasonic
- Recriwtio a chefnogi rheolwyr prosiect ac artistiaid llawrydd Operasonic i redeg prosiectau Operasonic
- Sicrhau bod asesiadau risg yn eu lle a bod holl staff y prosiect yn cadw at bolisïau Operasonic
- Contractio staff ac artistiaid llawrydd ar gyfer prosiectau
- Cynnal a rheoli cyllidebau ar gyfer prosiectau Operasonic

- Cynorthwyo'r Cynhyrchydd Gweithredol ar waith codi arian ac ysgrifennu cynigion yn ôl yr angen
- Rheoli gwybodaeth am brosiectau ar wefan Operasonic
- Rheoli partneriaethau presennol ar gyfer prosiectau Operasonic
- Cynrychioli Operasonic a'i weledigaeth mewn digwyddiadau a chyfarfodydd allweddol

Sut beth fyddai llwyddiant?

- Prosiectau presennol yn yr arfaeth ac ar y gweill
- Prosesau cynllunio a rheoli da yn eu lle
- Prosiectau newydd yn cael eu datblygu a'u cynllunio
- Perthnasoedd cymunedol cryf yn cael eu meithrin a'u tyfu
- Y Rheolwr Prosiect yn cael eu cynorthwyo i ddatblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth

Nodweddion allweddol y rôl:

- Y gallu i weithio o swyddfa Operasonic a lleoliadau cymunedol
- Gwybodaeth ymarferol am blatfformau digidol, gan gynnwys Excel, Zoom, Google Drive, Wordpress, Airtable, Xero
- Digwyddiadau rheolaidd gyda'r nos ac ar benwythnosau
- Hyfforddiant rheolaidd a mentora gan ymddiriedolwyr i hwyluso twf personol

Gwybodaeth a Phrofiad

| Hanfodol | Dymunol |
|---|---|
| Sgiliau rheoli prosiect | Profiad o Airtable ac offer cynllunio prosiect |
| Cyllidebu gan ddefnyddio taenlenni | Profiad o gontractio |
| | Pecynnau systemau cyfrifo e.e. XERO |
| Gwybodaeth am sector y celfyddydau yng Nghymru | |
| Profiad o reoli prosiectau artistig | |
| Profiad o weithio gyda phobl ifanc neu gymunedau | Profiad o Weithdrefnau Amddiffyn Plant |
| | Profiad o weithio gydag ysgolion |
| Profiad o gynhyrchu prosiectau, theatr fyw neu ddigwyddiadau | |
| Profiad o ysgrifennu am brosiectau | Profiad o reoli gwefannau |
| Profiadau o weithio mewn partneriaeth | Profiad o adeiladu partneriaethau |
| Profiad o weithio'n ddwyieithog | Siarad Cymraeg |
| | |